

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos  
Fawrth, 1af Hydref 2019 yn yr Ystafell  
Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7:30 pm on Tuesday, 1<sup>st</sup>  
October 2019 at the Reading Room,  
Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Lowri Jones; y  
Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes,  
Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Aled  
Roberts, Bryan Tomlins, Phil Tomlins a  
Caryl Vaughan.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Lowri Jones;  
Councillors Sheila Davies, Jim Hughes,  
Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Aled  
Roberts, Bryan Tomlins, Phil Tomlins and  
Caryl Vaughan.

County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**402 Ymddiheuriad**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Gwenno  
Piette am fethu a bod yn bresennol yn y  
cyfarfod.

**402 Apology**

Councillor Gwenno Piette apologised for  
her inability to attend the meeting.

**403 Datgelu Buddiant Personol ac Un  
sy'n Rhagfarnu**

Fe ddatgelodd y Cynghorwr Bryan  
Tomlins buddiant personol ac un sy'n  
rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng  
nghofnod 400 isod a gadawodd yr  
ystafell pan gafodd ei ystyried.

**403 Disclosure of Personal and Prejudicial  
Interest**

Councillor Bryan Tomlins disclosed a  
personal and prejudicial interest in the  
matter referred to in Minute 4XX below  
and left the room during the discussion  
thereon.

**404 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a  
gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r  
Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2019  
fel rhai cywir.

**404 Minutes of the Monthly Meeting held  
on 3<sup>rd</sup> September 2019**

The Minutes of the Monthly Meeting of the  
Council held on 3<sup>rd</sup> September 2019 were  
confirmed as being a correct record.

**405 Materion yn codi o'r Cofnodion**

- (a) Cofnod 393 (c) – Cytunwyd gofyn i'r  
Cadeirydd ddilyn i fyny'r posibilrwydd o  
 greu 'Gwobrwyon Cymunedol' i  
gydnabod cyfraniad pobl i'r gymuned.
- (b) Cofnod 393 (d) – fe adroddodd y  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards fel a  
ganlyn:  
Cylch Peris – roedd y cais cynllunio yn  
mynd yn ei flaen  
Tir y tu cefn i Hafan yr efail – roedd dan  
ystyriaeth o hyd gan Tai Ceredigion, gan  
gynnwys trafod pris y tir gyda'r cyngor

**405 Matters arising from the Minutes**

- (a) Minute 393 (c) – It was agreed to request  
the Chairman to follow up the possibility of  
creating 'Community Awards' to recognise  
people's contribution to the community.
- (b) Minute 393 (d) – County Councillor Dafydd  
Edwards reported as follows:  
Cylch Peris – on-going planning  
application  
Land to the rear of Hafan yr Efail - still  
under discussion by Tai Ceredigion,  
including discussions on the valuation of  
the land with the County Council.

Sir.

- (c) Cofnod 393 (e) – roedd y biniau gyda'r Cynghorydd Dennis Morgan, yn barod i'w gosod yn eu lle.
- (d) Cofnod 396 – roedd y Gwaith o drwsio'r cyfarpar chwarae mewn llaw.
- (e) Cofnod 401 – dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ei fod wedi dwyn sylw'r Cyngor Sir i'r coed sy'n gorhangian yng Nghylch Peris; ac nad oedd ateb wedi dod i law hyd yn hyn mewn perthynas â'r cynnig i wahardd cerbydau nwyddau trwm ar hyd Stryd y Neuadd. Roedd y mater yn ymwneud ag Albion fields wedi'i ddatrys.
- (f) Cytunwyd prynu blodau ar gyfer eu plannu ym man eistedd y gymuned.

#### **406 Archwiliad o Eiddo**

Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins mai ef oedd wedi ymgymryd â'r archwiliad ac, heblaw'r angen i gadw golwg ar gyflwr bwys y siglenni yn y man chwarae, nid oedd dim byd i'w adrodd.

#### **407 Meinciau yn y Gymuned**

Dywedodd y Clerc fod dau dendr ar gyfer adnewyddu meinciau wedi'u derbyn er nad oedd un ohonynt wedi cwrdd â'r gofyniad i anfon y tendr mewn "amlen wedi selio erbyn 5:00pm dydd Gwener 27ain Medi 2019". Dywedodd fod un wedi ei anfon mewn e-bost a bod yr ail wedi cyrraedd mewn amlen wedi selio - ar ôl y dyddiad cau. Felly, cyn symud ymlaen, gofynnodd y Clerc i'r Aelodau os oeddent am fwrw 'mlaen i ystyried y ddau dendr a dderbyniwyd. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon derbyn y ddau dendr ac fe agorwyd yr un amlen.

Darlennodd y Caderydd manylion y tendrau a dderbyniwyd. Roedd un tendr yn cynnwys y cyflenwad o ddefnyddiau tra bod yr ail ddim yn cynnwys hynny.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhâd gan y Clerc os oedd y ddogfen tendro yn dweud fod angen i'r tendrwr gyflenwi'r defnyddiau angenrheidiol ac atebodd nac oedd yn gwneud hynny. Cytunwyd

- (c) Minute 393 (e) – the bins were now with Councillor Dennis Morgan, ready for putting in place.
- (d) Minute 396 – the repairs to the playground equipment were in hand.
- (e) Minute 401 - County Councillor Dafydd Edwards stated that he had reported the overhanging trees at Cylch Peris to the County Council; and that no response had been received to date with regard to the suggestion for restricting HGVs along Stryd y Neuadd. The Albion Fields matter had been resolved.
- (f) It was agreed to purchase flowers for planting at the communal seating area.

#### **406 Property Inspection**

Councillor Phil Tomlins stated that he had undertaken the inspection and, other than a need to monitor the condition the bushes on the playground swings, there was nothing to report.

#### **407 Benches in the Community**

The Clerk stated that two tenders for the contract for renovating the benches had been received although neither had followed the requirement to submit the tender "in a sealed envelope by 5:00pm on Friday 27<sup>th</sup> September 2019". He stated that one had been sent via e-mail and the second received in a sealed envelope - after the closing date. Therefore, before proceeding, the Clerk asked the Members whether they wished to continue to consider the two tenders received. The Members indicated that they were happy to accept both tenders and the one envelope was opened.

The details of the tenders received were announced by the Chairman. One tender included the supply of materials whilst the second didn't.

Members then sought clarification from the Clerk as to whether the tender document stipulated that the tenderer should supply the necessary materials and he replied

fod angen i bob tenderwr gynnwys y defnyddiau angenrheidiol – a ddylai fod yn gyffeithydd cydnabyddiedig a slatiau parod.

**PENDERFYNWYD:**

- i) cael cadarnhâd gan y tenderwr cyntaf fod y defnyddiau a gynhwysir yn y tender yn gyffeithydd cydnabyddiedig a slatiau parod; a
- ii) gofyn i'r ail tenderwr i gyflwyno pris am gyflenwi gyffeithydd cydnabyddiedig a slatiau parod.

**408 Y Chalet**

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Grant Cymunedol yn y swm o £2,992 wedi'i dderbyn oddi wrth y Cyngor Sir.

Roedd y Cynghorydd Bryan Tomlins, mewn llythyr i'r Clerc, wedi cwestiynu os oedd y broses ar gyfer ymgymryd â'r cynllun wedi'i wneud yn gywir, gan ei fod yn ymddangos nad oedd y Cyngor wedi dilyn y broses tendro cywir, drwy cyhoeddi'r prisiau yn y cofnodion cyn gofyn am brisiau gwahanol; ac fe ailadroddodd y Cynghorydd Tomlins hwn yn y cyfarfod.

Fe atgoffodd y Clerc yr Aelodau o'r broses ar gyfer cyflawni'r cynllun, gan gynnwys cyflwyno dau set o brisiau i'r Cyngor Sir at bwrpas y cais am grant cymunedol.

Yn dilyn trafodaeth, dywedodd yr Aelodau eu bod yn hapus fod y prisiau yn cynnig gwerth am arian. Prun bynnag, nid oedd rhai Aelodau yn cytuno gyda'r dehongliad yma.

O ran goruchwyllo'r Gwaith o godi'r Chalet, cytunodd y Cyngor i Mr Dafydd Edwards a'r Cynghorydd Dennis Morgan wneud y Gwaith hyn.

that this was not the case. It was agreed that both tenderers should include the necessary materials – which needed to be a recognised preservative and purpose-built slats.

It was therefore **RESOLVED:**

- i) to ascertain with the first tenderer that the materials included in the tender were for a recognised preservative and purpose-built slats; and
- ii) to request the second tenderer to provide a price for the supply of a recognised preservative and purpose-built slats.

**408 The Chalet**

Members were informed that a Community Grant in the sum of £2,992 had been received from the County Council.

Councillor Bryan Tomlins, by way of a letter to the Clerk, had questioned whether the process for undertaking the scheme had been undertaken correctly, as it appeared that the Council had not followed the correct tendering process, by way of publishing prices in the Minutes prior to seeking alternative prices; and this was reiterated by Councillor Tomlins at the meeting.

The Clerk reminded Members of the process for undertaking the scheme, including the submission of two sets of prices to the County Council for the purpose of the community grant application.

Following a discussion, Members indicated that they were happy that the prices received did provide value for money. However, a few Members did not agree with this interpretation.

With regard to the supervision of the construction of the Chalet, the Council agreed that Mr Dafydd Edwards and Councillor Dennis Morgan undertake this work.

**PENDERFYNWYD** felly bwrw 'mlaen gyda'r cynllun yn unol â'r prisiau gorau a dderbyniwyd.

- 409 Man Chwarae Llansantffraed**  
Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A190681 - Southcote, Stryd-yr-Ysgol, Llanon Dymchwel y garej presennol a chodi estyniad deulawr.

**PENDERFYNWYD** peidio a gwrthwynebu'r cais.

- 410 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus 2019**  
Roedd yr anfoneb am y toriad diwethaf wedi'i gyflwyno cyn y cyfarfod gan y Contractwr a **PENDERFYNWYD** talu'r anfoneb hwn a felly dod â'r contract ar gyfer y flwyddyn hon, 2018-19, i ben.

- 411 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus 2020**  
Dywedodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu bod wedi adolygu'r Ddogfen Tendro Drafft ac wedi cymeradwyo sawl gwelliant a oedd bellach wedi'u cynnwys yn y Ddogfen.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Ddogfen Tendro, fel a wellwyd, ac i fwrw 'mlaen gyda'r broses tendro ar gyfer Contract 2020.

- 412 Golau stryd yn Nebo**  
Cyfeiriodd y Cynghorydd Lodwick Lloyd at yr angen am ddarparu goleuadau stryd ar hyd y ffordd a oedd yn arwain rhwng y tai a elwir Morawel a Pengarreg.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ofyn am amcanbrisoedd ar gyfer ddarparu goleuadau ynni solar yn y lleoliad yma.

- 413 Materion Ariannol**  
**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:
- |                 |        |
|-----------------|--------|
| Arwyddion Rebus | £51.74 |
| Mr Meurig Lloyd | £284   |

It was therefore **RESOLVED** to proceed with the scheme in accordance with the best prices received.

- 409 Planning Matters**  
Consideration was given to planning application A190681 - Southcote, Stryd-yr-Ysgol, Llanon Demolition of existing garage and erection of a two storey extension.

It was **RESOLVED** not to object to the application.

- 410 Public Footpath Growth Cutting Contract 2019**  
The invoice for the final cut had been handed in by the Contractor prior to the meeting and it was **RESOLVED** to pay this invoice and therefore end the contract for this year, 2018-19.

- 411 Public Footpath Growth Cutting Contract 2020**  
The Chairman and Vice-Chairman reported that they had reviewed the Draft Tender Document and recommended certain amendments which had now been incorporated in the document.

It was **RESOLVED** to adopt the Tender Document, as amended, and to proceed with the tendering process for the 2020 Contract.

- 412 Street Lighting at Nebo**  
Councillor Lodwick Lloyd referred to the need for the provision of lighting along the top end of the road serving the dwellings between Morawel and Pengarreg.

It was **RESOLVED** to request County Councillor Dafydd Edwards to seek estimates for the provision of solar powered lights at this location.

- 413 Finance Matters**  
It was **RESOLVED** to pay the following invoices:
- |                 |        |
|-----------------|--------|
| Rebus Signs     | £51.74 |
| Mr Meurig Lloyd | £284   |

Mr Matthew Butler £150

- 414 Cais Ymddiriedolwyr Clwb Peldroed Llanon mewn cysylltiad â'r Ystafelloedd Newid**  
Nodwyd y byddai Pwyllgor Neuadd y Pentref a Meysydd Chwarae Llanon yn trafod y mater hwn y neu cyfarfod nesaf.

- 415 Unrhyw Fater Cymwys Arall**
- a) Fe gufeiriodd sawl Aelod at y pryderon a fynegwyd gan drigolion yn Llanon a Llansantffraed am bobl ifanc yn creu problemau, ar rai adegau ar feics, ar yr heolydd a'r palmentydd. Cytunwyd codi'r mater gyda'r Heddlu, gan gynnwys yr Heddwes Cymunedol, yn y bore coffi wythnosol; ac i ystyried ffyrdd o gynnwys yr Ysgol Gynradd yn y trafodaethau.
- b) Cytunwyd, ar gynnig y Cynghorydd Caryl Vaughan, rhoi ystyriaeth i ddefnyddio digwyddiadau i ddod a'r gymuned ynghyd ac ymhlith y syniadau a gynigiwyd oedd digwyddiad ynghlwm ag agor y Chalet Newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:40pm

Mr Matthew Butler £150

- 414 Request Llanon Football Club Trustees in respect of the Changing Rooms**  
It was noted that the Llanon Village Hall and Playing Fields Committee would be discussing this matter at its next meeting.

- 415 Any Other Competent Business**
- a) Several Members referred to concern expressed by residents in Llanon and Llansantffraed about young people causing problems, sometimes with bikes on the roads and pavements. It was agreed to raise the matter with the Police, including the Community Police Officer at the week coffee morning; and to consider ways of including the Primary school in discussions.
- b) It was agreed, at Councillor Caryl Vaughan's suggestion, that consideration be given to use events to bring the community together and amongst the ideas suggested at the meeting was an event linked to the opening of the new Chalet.

The meeting concluded at 9:40pm